**EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANDUDOCH**

Cafwyd eisteddfod lwyddiannus yn Llandudoch eleni eto ar Ddydd Sadwrn, Mai 16eg. Bu tri gweithgarwch yn ystod yr wythnos. Ar y Nos Lun, cafwyd noson wobrwyo cystadlaethau llên mewn noson fyrlymus yn y cartws, Llandudoch. Jen Sajko, Trefdraeth a Shan Clarke, Aberteifi oedd y ddwy feirniad a gafodd eu plesio gan gynnyrch y plant.

Enillwyd Tlws Coffa Kenneth Mower am arlunydd mwyaf addawol yr eisteddfod gan Tomi Mathias, Llechryd - arlunydd sy’n dilyn ôl troed ei hen-dad-cu, Idris Mathias a greodd y map enwog lliwgar o Afon Teifi.

Gwobr WR Smart oedd i’r llenor gorau ymhlith y plant, ac enillwyd hwnnw gan Beca Roberts, Bow Street, Aberystwyth

Tro’r beirdd a’r beirniad llên, Jo Heyde, oedd hi Nos Fercher mewn noson o feirniadaethau a Thalwrn y Beirdd. Cawsom wybod pwy oedd buddugwyr yr adran lên ac, erbyn diwedd y noson, canfod mai Tîm Cadwgan o Ddosbarth cynganeddu castell Aberteifi fu’n fuddugol yn y talwrn a feurynnwyd gan Ceri Wyn Jones. Aelodau’r tîm oedd Geraint Volk, Nia Llewelyn, Aled Eynon a Mary Jones. Trist oedd cael y newyddion cyn diwedd yr wythnos i Mary Jones farw yn sydyn. Roedd Mary yn aelod dîm Talwrn Glannau Teifi a Chôr Crymych a’r Cylch, ac yn berson gweithgar iawn. Roedd yn gymeriad hynaws, cadarn ei barn a gyfrannai’n helaeth at fywyd diwylliannol yr ardaloedd hyn. Bydd bwlch sylweddol ar ei hôl.

Ar y Dydd Sadwrn, yn dilyn cân i agor y gweithgareddau, bu plant Ysgol Llandudoch, diolch i’w hathrawon, yn brysur am yr awr a hanner cyntaf yn yr eisteddfod leol, gyda’u prif athrawes, Elinor Bennett, yn llywio o’r llwyfan. Y beirniaid eleni oedd Siôn Goronwy, Y Bala a Davinia Harries Davies, Bancffosfelen (Cerdd), a Beryl Vaughan, Llanerfyl (llefaru). Beirniadwyd cystadlaethau’r dysgwyr gan Karl Davies, Caerdydd. Braf oedd cael croesawu dau gyfeilydd lleol yn ôl at y piano sef Angharad James, Llantwyd ac Iwan Davies, Llandudoch.

Er bod cyfnodau tawel, bu cystadlu cyson a chynulleidfa deilwng gydol y dydd. Enillwyd prif wobrau’r dydd gan Sion Wyn o Felinfach (Tlws Llenyddiaeth y Dysgwyr; Simon Moffett, Hwlffordd (Tlws Llenyddol y Dysgwyr) a Hefin Wyn, Maenclochog (Bardd y Gadair). Crëwyd y gadair hardd eleni gan Roni Roberts, Felinwynt.

Yn ogystal ag Elinor Bennett, arweiniwyd o’r llwyfan gan Llinos Devonald, Dafydd Davies, y Parch Wyn Maskell a Geraint James. Cafwyd gair pwrpasol

gan lywydd y dydd, y cynghorydd Michael James, yn ogystal â rhodd hael at y coffrau.

Wedi deuddeg awr o gystadlu, gyda rhai uchafbwyntiau cofiadwy iawn, daeth yr eisteddfod i ben ryw ychydig cyn hanner nos.

**CANLYNIADAU**

**YR EISTEDDFOD LEOL**

**Cystadlaethau Llwyfan (**Cystadleuwyr i gyd o Ysgol Llandudoch)

Llefaru unigol oed Blwyddyn 2 ac iau. 1af: George Somersham Jones; 2il: Ada Caldecott, Mabli Craigan; 3ydd: Naia Senra Nankivell. Unawd oed Blwyddyn 2 ac iau 1af: Ada Caldecott; 2il: George Somersham Jones; 3ydd: Mabli Craigan; Naia Senra Nankivell. Llefaru unigol Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af: Eddie Snow; 2il: Anouk Mundy Kearns; 3ydd: Cleo Somersham Jones; Jacob Webb a Eben Triggs. Unawd Blwyddyn 3 a 4. 1af: Afan Ladd; 2il: Jacob Webb; 3ydd; Eddie Snow, Cleo Somersham Jones. Llefaru unigol Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af: Anni Foulkes Roberts; 2il: Ezmae Mullin a Mia Grota, 3ydd: Gwenan Gordon. Unawd Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af Mia Grota. Unawd Alaw Werin hyd at Flwyddyn 6. 1af Anni Foulkes Roberts. Unawd unrhyw offeryn cerdd (eithrio'r piano) hyd at Flwyddyn 6: 1. Gwenan Gordon. Parti/Côr hyd at Flwyddyn 6. 1af: Ysgol Llandudoch **Gwobr Her Nantypele i'r perfformiad gorau gan unigolyn yn y cystadlaethau lleol ym marn y beirniaid llefaru a cherdd**: Anni Foulkes Roberts.

**Cystadlaethau Llên y plant:**

Plant oed Cyfnod Sylfaen: Llun a stori. 1. Iona Evans, Eglwyswrw; 2. Erin Medi Bellis, Eglwyswrw; 3. Gwern Mason-Jones, Eglwyswrw. Blynyddoedd 3 a 4: Stori neu ddisgrifiad. Tegid Lewis, Eglwyswrw; Jacob Jones, Eglwyswrw; 3. Guto Jones, Llangwyryfon. Blynyddoedd 5 a 6: Stori neu ddisgrifiad: 1. Beca Roberts, Aberystwyth; 2. Cai Jones, Eglwyswrw; 3. Leah Rodgers a Megan Wyn Bellis, Eglwyswrw. Barddoniaeth oed Cyfnod Sylfaen. 1. Dion Hughes, Eglwyswrw; 2. Gwern Mason Jones, Eglwyswrw; 3. Newin Evans, Eglwyswrw. Barddoniaeth Blynyddoedd 3 a 4. 1. Lois Jones, Eglwyswrw; Eben Triggs, Llandudoch; 3. Guto Jones, Llangwyryfon. Barddoniaeth Blynyddoedd 5 a 6. 1. Cai Jones, Eglwyswrw; 2. Charlie Hodges, Eglwyswrw; 3. Leah Rodgers, Eglwyswrw. **Gwobr Her W.R.Smart i'r llenor ifanc mwyaf addawol hyd at Bl 6 :**Beca Marged Roberts, Bow Street, Aberystwyth

**Cystadlaethau celf y plant**

Oed meithrin neu dderbyn. 1. Lettie Purcell, Aberporth; 2. Aria Owens-King, Aberporth; 3. Frasier Bacon, Aberteifi; Cymeradwyaeth Teifi Redman Cross, Llandudoch. Blwyddyn 1 a 2. 1. Millie Williams, Aberteifi; 2. Bryn Suitor, Eglwyswrw 3. Gulliver Pailly, Aberporth; Cymeradwyaeth Aubrey Evans, Aberporth. Blwyddyn 3 a 4. 1. Eben Triggs, Llandudoch; 2. Mathew Tare, Llandudoch; 3. Tomi Mathias, Llechryd; Cymeradwyaeth: Carwyn Lewis a Cleo Somershan Jones, Llandudoch. Blwyddyn 5 a 6. 1. Nia Morris, Eglwyswrw; 2. Frea Bailey, Llandudoch; 3. Carina Read Eglwyswrw a Laila Guiver Phillips, Llandudoch. Ffotograffiaeth: Blwyddyn 6 ac iau. 1. Carina Read, Eglwyswrw; 2. Tia Phillips, Eglwyswrw ; 3. Tomos Roberts, Eglwyswrw. **Tlws Coffa Kenneth Mower i'r arlunydd mwyaf addawol hyd at Bl 6: Tomi Mathias, Ysgol Llechryd**

***EISTEDDFOD YR IFANC***

***Cystadlaethau agored oed cynradd***

Llefaru unigol dosbarth derbyn neu iau. 1af: Steffan James Richards, Llwyncelyn. Unawd oed dosbarth derbyn neu iau. 1af: Steffan James Richards. Llefaru unigol Blwyddyn 1 a 2. 1af: Leisa Hatcher, Gorsgoch. 2il: Alaw Richards, Llwyncelyn. Unawd Blwyddyn 1 a 2. Leisa Hatcher, Gorsgoch, 2il Alaw Richards, Llwyncelyn. **Gwobr Her Calon Ifanc Llandudoch i'r perfformiad llwyfan unigol gorau yn yr holl gystadlaethau hyd at Flwyddyn 2: Leisa Hatcher.** Llefaru unigol Blwyddyn 3 a 4. 1af: Gwern Bowen, Boncath; 2il: Hana Sisto, Gorsgoch. Unawd Blwyddyn 3 a 4. 1af: Gwern Bowen. 2il; Hana Sisto. Llefaru unigol Blwyddyn 5 a 6. 1af: Sara Lewis, Mydroilyn, 2il: Megan Haf Griffiths, Treletert, 3ydd: Bethan Llywelyn, Llanwnnen, Beca Roberts, Aberystwyth. Unawd Blwyddyn 5 a 6. 1af: Beca Roberts. 2il: Megan Haf Griffiths. 3ydd Bethan Llywelyn. Unawd Alaw Werin hyd at Flwyddyn 6. 1af: Hana Sisto, 2il: Megan Haf Griffiths 3ydd: Gwern Bowen. Canu emyn hyd at Flwyddyn 6. 1af: Hana Sisto. 2il: Alaw Richards, Llwyncelyn a Megan Haf Griffiths, 3ydd: Gwion Bowen, Boncath. Unawd Cerdd Dant hyd at Flwyddyn 6. 1af: Beca Marged Roberts; 2il: Alaw Richards; 3ydd: Sara Lewis. Unawd piano hyd at Flwyddyn 6. 1af: Alaw Richards. Unawd unrhyw offeryn cerdd (ac eithrio'r piano) hyd at Flwyddyn 6. 1af: Sara Lewis; 2il Hana Sisto. **Gwobr Her Iwan a Sian Davies, Isfryn, i'r perfformiad llwyfan unigol gorau yn y cystadlaethau o oed Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6. Beca Marged Roberts.** Deuawd hyd at Flwyddyn 6.1af: Sara Lewis a Bethan Llywelyn.

***Cystadlaethau oed uwchradd a than 26 oed***

Llefaru unigol dan 16 oed: 1. Elen Fflur Francis, Casnewydd Bach. 2. Erin Medi Roberts, Bow Street, Aberystwyth. Unawd dan 16 oed. (Cwpan Her y diweddar Miss Mair Evans): Elen Fflur Francis. Unawd Alaw Werin dan 16 oed. 1. Elen

Fflur Francis. Canu Emyn dan 16 oed. 1. Elen Fflur Francis. Unawd unrhyw offeryn cerdd ac eithrio'r piano dan 16. 1. Amber O'Connor, Eglwyswrw. **Gwobr Arbennig Merched y Wawr Llandudoch i'r perfformiad llwyfan gorau gan unigolyn yn y cystadlaethau oed uwchradd dan 16 : Amber O'Connor, Eglwyswrw.** Llefaru unigol 16 a than 19 oed.: 1. Alwena Owen, Penrhiwpâl. Unawd 16 a than 19 oed(Cwpan Her Rhiannon Lewis): 1. Alwena Owenl. Unawd 19 a than 26 oed: 1. Melissa Fletcher, Llechryd. Unawd Alaw Werin 16 a than 26 oed: 1. Alwena Owen 2. Melissa Fletcher. Unawd Piano 16 a than 26 oed. 1. Lleucu Haf, Blaenporth 2. Alwena Owen. Unawd unrhyw offeryn cerdd (ac eithrio'r piano) 16 a than 26: 1. Lleucu Haf.

**CYSTADLAETHAU LLENYDDOL YR IFANC**

Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc i gystadleuwyr hyd at 21 oed: 1. Siôn Wyn, Felinfach

**11 oed a than 16:** Darn o ryddiaith.. 1af: £10.00 1. Esyllt Jones, Ysgol Bro Teifi. Darn o farddoniaeth 1. Einir George, Ysgol Bro Teifi **16 a than 26 oed:** Darn o ryddiaith Tesni Peers, Wrecsam. Darn o farddoniaeth: Efa lewis, Trefdraeth

**EISTEDDFOD YR HWYR**

Tlws Coffa Mair Garnon James: Llefaru neu gyflwyno darn digri. Oed – agored. 1. Gwion Bowen, Boncath; 2. Sulwen Davies, Drefach Cross Hands 3. Gwendolyn Evans, Post Bach. Cân o unrhyw sioe gerdd (unawd, deuawd neu grŵp). 1. Melissa Fletcher, Aberteifi 2. Alwena Mair Owen, Llanllwni; 3. Elen Fflur Francis, Casnewydd Bach. Canu emyn 12 a than 60 oed. 1. Arwel Evans, Brynberian 2. Alwena Mair Owen, Llanllwni 3. Rhiannon Jones, Llundain. Darllen darn o'r ysgrythur ar y pryd. 1. Gwendolyn Evans, Post Bach; 2.Elen Francis, Casnewydd Bach; 3. Julia James, Cenarth. **Cystadleuaeth Goffa Waldo Williams** i ddysgwyr. 1.Kate Smith, Nanhyfer. Canu emyn dros 60 oed: 1. Daniel Rees, Drefach, Felindre; 2. Sulwen davies, Drefach, Cross Hands. Prif gystadleuaeth lefaru 1. Gwion Bowen, Boncath; 2. Carol Davies, Henllan; 3. Gwendolyn Evans, Post Bach; 4. Sulwen Davies, Drefach, Cross Hands. Cystadleuaeth Côr Llandudoch: 1. Côr Crymych a'r Cylch. Yr Hen Ganiadau – unrhyw unawd Gymreig : 1.Daniel Rees, Drefach Felindre 2. Rhiannon Jones, Llundain 3. Arwel Evans, Brynberian. Her Unawd. 1. Arwel Evans, Brynberian 2. Daniel Rees, Drefach Felindre. 3. Alwena Owen, Llanllwni 4.Elen Francis, Casnewydd Bach

**CYSTADLAETHAU LLENYDDOL AGORED**

Cystadleuaeth y Gadair *Dychwelyd i neu* Gadael: - Hefin Wyn, Maenclochog. Telyneg: *Llethrau* - Terwyn Tomos, Llandudoch. Soned: *Atgof* - Terwyn

Tomos. Cyfres o benillion telyn neu dribannau*: Mynyddoedd* - John Meurig Edwrads, Aberhonddu. Englyn: Geraint Volk, Llandudoch. Cerdd gynganeddol ar unrhyw fesur: Terwyn Tomos, Llandudoch, Limrig: - Eifion Daniels, Blaenffos. Cân ddigri *Diwrnod yn yr eisteddfod* :Peter Hughes Grifiths, Caerfyrddin. Stori fer: Aled Scourfield, Mynachlogddu. Emyn i agor neu gloi eisteddfod: Dyfan Phillips, Rhuthun. Cystadleuaeth CLEBRAN (Papur Bro'r Preseli): Trefor Huw Jones, Efail Isaf. Talwrn y Beirdd – Tîm Cadwgan (Geraint Volk, Nia Llewelyn, Mary Jones, Aled Eynon)

**Cystadlaethau Llenyddol i Ddysgwyr:**

Lefel Mynediad : 1. Rosie Gardner; 2. Julia Colin; 3. Kate Elizabeth Trow. Lefel Canolradd : 1. Tim Kirby; 2. Charlotte Dean. Lefel Agored : 1. Rose Jones. Limrig: 1. Heather Davies; 2. Simon Moffett; 3. Kate Smith. Tlws Llenyddol y Dysgwyr : Simon Moffett, Hwlffordd **(simon_moffett@yahoo.co.uk)**